OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2799 (Cy.267)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	- -	*12 Tachwedd 2002*
Yn dod i rym	- -	*13 Tachwedd 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a (4), a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) fel y'u hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 13 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac nid ydynt yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau grant sy'n cael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygiadau

2.—(1) Mae'r ffurflen (Saesneg ei hiaith) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996(**3**) yn cael ei diwygio fel a nodir yn y testun Saesneg o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae'r ffurflen (Gymraeg ei hiaith) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(**4**) yn cael ei diwygio fel a nodir yn y testun Cymraeg o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1996 p.53. Mae Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. I gael y diffiniad o "prescribed" *gweler* adran 101.

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3199, 1997/978, 1998/809, 1999/1607, 1999/3470 (Cy.56), 2000/1735 (Cy.119), 2001/2071 (Cy.143) a 2001/4006 (Cy.332).

(**4**) O.S. 1998/1113 a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2316, 1999/3470 (Cy.56), 2000/1735 (Cy.119), 2001/2071 (Cy.143) a 2001/4006 (Cy.332).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D.Elis-Thomas
12 Tachwedd 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p. 38.